

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWDYD AR NOS
FAWRTH 13EG O DACHWEDD 2018 YN Y PAFILIWN, RHEWL AM 7.45 O'R
GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Ian Hession (Cadeirydd), Siân Davies, Clwyd Thomas, Iona Jones, Wyn Wilkinson a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Mike Denman, Arwel Jones, Brynle Lloyd, Dewi Roberts a'r Cynghorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry.

2. DDATGAN DIDDORDEB.

Dim yn codi.

3. TRAFODAETH GYDA HEDDLU GOGLEDD CYMRU.

Croesawodd y Cadeirydd y PCSO Lee Humphreys o'r Orsaf Heddlu Rhuthun i'r cyfarfod. Y prif bwnc i'w thrafod oedd y pryder o gyflymdra traffic yn Rhewl ar y Ffordd yr Orsaf ynghyd ar A525 trwy'r pentref. Cytunodd PCSO Humphreys i'r Heddlu lleol gwneud mwy o arolwg cyflymdra'r traffic ar y ddwy ffordd a nodwyd gan Aelodau'r Cyngor. Diolchwyd y Cadeirydd i PCSO Humphreys am fynychu'r cyfarfod.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 11eg o Fedi 2018 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Mae BT mewn ymgynghoriad cyhoeddus 90 diwrnod ar hyn o bryd i weld os oes yna unrhyw wrthwynebiad i dynnu'r ffon o'r Ciosg Ffon Goch Gyhoeddus BT yn Llanynys. Os oes yna ddim gwrthwynebiad i dynnu'r ffon mae'r Ciosg Ffon Goch ar gael i'r Cyngor Cymuned Llanynys am bris o £1.00.

B. Chadarnhawyd Grŵp Cynefin fod y gloch ddim yn nhwr Eglwys Rhewl pan dynnwyd yr adeilad i lawr gan Grŵp Cynefin.

C. Derbyniwyd gwybodaeth fod Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Cosi estyniad i'r annedd, Codi adeilad gweithdy ar wahân, addasiadau i'r fynedfa bresennol a gwaith cysylltiedig yn Bro Fair, Ffordd yr Orsaf, Rhewl.
2. Lleihad y Goron o bedwar coed yn ddarostyngedig i Orchymyn Cadw Coed Glyndŵr 1990/1 ar dir tu ôl i Ffordd Dinbych a Rhyd-y-Byll yn Rhewl.
3. Newid defnydd tir ar gyfer gosod 8 stiwdio gwyliau, gosod peiriant trin pecyn a gwaith cysylltiedig ar dir yn "Homewood Bound", Ffordd yr Orsaf, Rhewl.

6. CYLLID.

A. Datganiad Banc £12,308.00.

B. Taliadau:-

1. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 31ain o Ragfyr 2018 £400.00.
2. HMRC â'n PAYE am y chwarter yn diweddu 31ain o Ragfyr 2018 £100.00.

7. CAIS CYNLLUNIO.

Cais 24/2018/0614 - Trosi ac addasu adeilad allanol ynghlwm i ffurfio estyniad i'r annedd presennol ym Mhen-y-bryn, Rhewl - nid oedd gan yr Aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r cais.

8. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Nicola Kneale sydd eisiau sefydlu Grwp Park Run yn Rhewl a gofynni'r i fynychu cyfarfod y Cyngor i roi ychwaneg o wybodaeth ynglŷn ar fenter. Penderfynwyd ei gwahodd i gyfarfod nesaf y Cyngor.

B. Derbyniwyd fod gan yr "Fferm Wynt Coedwig Clocaenog - Arolwg y Gronfa Buddsoddi Cymuned" cyfarfod yng Ngherrigydrudion ar nos Fawrth 13eg o Dachwedd 2018 a derbyniwyd gwybodaeth fod y Cynghorydd Mike Denman wedi mynychu'r cyfarfod.

C. Mi fydd "Dathliad y Nadolig" Cyngor Sir Ddinbych ar nos Fawrth 4ydd o Ragfyr 2018 yn Eglwys y Plwyf Llanelwy am 7.00 o'r gloch.

D. Derbyniwyd adroddiad cynigion draft o'r Arolwg o Drefniadau Etholiadol Sir Ddinbych oddi wrth "Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru". Nid oedd yna unrhyw newid i'r Ward Llandyrnog sydd yn cynnwys y Cynghorau Cymunedol Aberchwiler, Llandyrnog a Llanynys.

E. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

9. MATERION BRYN O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

Dim yn codi.

10. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Fawrth 8fed o Ionawr 2019 yn Y Pafiliwn, Rhewl am 7.45 o'r gloch.